

Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Tachwedd 2022

Ar 4 Hydref 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 8 Rhagfyr 2022.

Ar 22 Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth



Amserlen ar gyfer ystyried:

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad, sef 16 Chwefror 2023.